# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Glynrhedyn**

**Ysgol Llyn y Forwyn**
**Darran Terrace**
**Glynrhedynog**
**CF43 4LG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Llun, 23 Gorffennaf 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Glynrhedyn wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Llyn y Forwyn yng Nglynrhedynog. Mae wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal dydd llawn i hyd at 38 o blant. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn darparu sesiwn bore o 9am i 12pm ddydd Llun i ddydd Gwener ar gyfer plant cyn ysgol rhwng dwy a phum mlwydd oed. Mudiad Meithrin yw darparwr y gwasanaeth ac mae wedi penodi Tracy Evans fel yr unigolyn cyfrifol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y gwasanaeth. Mae Leanne Price wedi cael ei henwebu fel y person â gofal sy'n arwain y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gwasanaeth Cymraeg yw hwn a chynhaliwyd yr arolygiad yn y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

1. **Asesiad cyffredinol**
   Mae gan blant fynediad at ystod dda o weithgareddau diddorol y maent yn eu cael yn ysgogol. Maent yn derbyn gofal gan dîm sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n feithringar ac yn gefnogol. Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda ac yn gyfforddus o fewn eu hamgylchedd ac yn ymgysylltu'n dda â phlant eraill a'u gofalwyr. Mae arweinydd y gwasanaeth wedi newid yn ddiweddar ac mae'r arweinydd newydd yn y broses o ddatblygu systemau a gweithdrefnau i gael cymaint o ganlyniadau cadarnhaol ag y bo modd i'r plant. Mae gan yr arweinydd weledigaeth gref ac mae'n glir ynghylch sut y mae'n bwriadu datblygu'r gwasanaeth. Mae angen rhywfaint o addurno ar yr amgylchedd ond mae'r tîm staff yn sicrhau ei fod yn ddeniadol a chyfforddus i'r plant.

2. **Gwelliannau**
   Dyma'r arolygiad cyntaf ar gyfer y gwasanaeth hwn.

3. **Gofynion ac argymhellion**
   Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.
   Mae rhai argymhellion arfer da wedi cael eu gwneud, sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad ac wedi'u crynhoi ar y diwedd.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae gan blant gyfleoedd i ddatblygu sgiliau da a gwybodaeth well o ganlyniad i'r gweithgareddau a'r profiadau ysgogol ac amrywiol a ddarperir yn y gwasanaeth. At ei gilydd, mae gan blant fynediad at adnoddau o ansawdd da sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys profiadau cymdeithasol, emosiynol, corfforol, iaith a chreadigol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae plant yn cael eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'u gweithgareddau.

Gwelsom eu bod yn symud o gwmpas yn annibynnol a bod eu chwarae yn cael ei arwain ganddynt hwy eu hunain yn bennaf. Nodwyd gennym fod y mwyafrif o blant yn hyderus wrth fynegi eu hanghenion a bod pob ymdrech i gyfathrebu yn cael ei gwerthfawrogi a'i datblygu gan y staff. Gwrandewir ar blant a rhoddir amser iddynt feddwl cyn ymateb i geisiadau.  Maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i roi eu barn ac yn dangos bodlonrwydd wrth ddewis caneuon a straeon. Mae anghenion a dewisiadau'r plant yn cael eu blaenoriaethu dros drefn arferol, ac mae gweithgareddau'n cael eu haildrefnu yn ôl yr angen. Penderfynodd y plant eu bod am barhau i chwarae y tu allan a gwelsom fod y gweithgareddau a gynlluniwyd yn cael eu newid i ddarparu ar gyfer y dewis hwn.

Mae'r plant yn profi hunanhyder gwell drwy ddysgu sut i fynegi eu safbwyntiau'n rhydd.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac mae ganddynt ymlyniadau emosiynol cadarnhaol gyda'u gofalwyr.

Gwelsom staff yn croesawu plant yn unigol ac yn darparu rhyngweithio cyfeillgar a chefnogol trwy gydol y sesiynau. Mae anghenion y plant yn cael eu monitro'n ofalus a darperir cysur emosiynol pan fo angen. Mae'r broses ymgartrefu'n cael ei rheoli'n ofalus ac yn cael ei harwain gan anghenion y plentyn. Mae gan bob plentyn ei fach cot ei hunan ac mae gwaith y plant yn cael ei arddangos ar y waliau gyda'u henwau, sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn a pherchenogaeth i'r gwasanaeth. Nid oes system gweithwyr allweddol wedi'i datblygu eto. Gwnaethom argymell fod hyn yn cael ei roi ar waith i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cysylltu â gofalwr penodol sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu.

Caiff lles emosiynol y plant ei hyrwyddo trwy'r gofal a'r cymorth cyson o ansawdd uchel y maen nhw'n eu derbyn.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae’r plant yn dechrau deall sut i reoli eu hymddygiad ac yn datblygu ffyrdd o ymdopi mewn sefyllfaoedd sy'n anodd iddynt.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o blant yn deall yr angen i gymryd eu tro ac i rannu gyda phlant eraill ac, yn ystod amser byrbryd, gwelsom ni nhw'n helpu plant eraill ac estyn bwyd iddynt. Mae'r plant yn dysgu cydweithredu mewn grŵp bach ac yn mwynhau gweithio gyda'i gilydd i orffen gweithgareddau crefft. Maent yn bennaf yn y camau cynnar o ddeall eu teimladau a'u hemosiynau ac maent yn dysgu sut i'w mynegi'n briodol. Gwnaethom arsylwi ar staff yn eistedd gyda phlant yn ystod amser byrbryd yn eu hannog ac yn sgwrsio gyda nhw, gan gefnogi datblygiad sgiliau cymdeithasol.

Mae’r plant yn elwa ar y cymorth cyson a roddir iddynt i'w helpu i reoli teimladau ac emosiynau.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae gan blant gyfleoedd da i ddatblygu ac ymestyn eu diddordebau.

Gwnaethom nodi bod y rhan fwyaf o blant yn llawn cymhelliant a'u bod yn ymgolli yn eu chwarae oherwydd eu bod yn cael y gweithgareddau'n ysgogol ac yn wahoddgar. Maen nhw'n ddysgwyr egnïol a chwilfrydig sy'n mwynhau archwilio'r amgylchedd ac maen nhw'n cynnal eu diddordeb i gwblhau tasgau. Mae plant yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o foddhad a gafwyd o gynhyrchu gwaith celf a chrefft, a gwelsom eu bod yn llawn cyffro wrth ddisgwyl dangos y canlyniadau i'w rhieni. Mae themâu wythnosol yn dibynnu ar ddiddordebau’r plant, a oedd yn awyddus i ddangos eu tŷ chwarae, a oedd wedi ei droi'n siop flodau. Mae'r ardal awyr agored yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r plant yn mwynhau chwarae gweithredol gydag amrywiaeth dda o deganau y gellir eistedd arnynt a si-so ynghyd â chyfleoedd plannu a thyfu.

Mae datblygiad cyffredinol y plant yn cael ei wella gan ansawdd y profiadau chwarae a'r gweithgareddau a gynigir iddynt.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae gan blant gyfleoedd rheolaidd a chyson i ddatblygu ystod dda o sgiliau trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda.

Roedd y plant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau crefft ysgogol a oedd yn darparu cyfleoedd iddynt ddatblygu gwybodaeth am liwiau, siapiau a gweadau. Clywsom yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio'n systematig trwy'r sesiynau ac roedd y plant yn datblygu hyder o ran defnyddio'r iaith, yn enwedig wrth ganu a chyfathrebu yn ystod amser cylch. Roedd y plant yn awyddus i ddangos eu gwaith i ni ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau. Roeddent yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd i ddefnyddio eu dychymyg a bod yn greadigol gyda'u gweithgareddau chwarae rôl fel siopwyr yn ogystal ag yn eu hardal gegin. Roedd y plant yn edrych ymlaen at eistedd gyda'u ffrindiau a'u gofalwyr yn ystod amser byrbryd, lle roeddent yn rhannu profiadau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu sgiliau hunangymorth ac yn mwynhau'r ymdeimlad o foddhad sy'n deillio ohonynt.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gweithdrefnau a systemau effeithiol ar waith sy'n sicrhau bod gan y staff y wybodaeth a'r sgiliau i gynnig gwasanaeth o ansawdd da i'r plant sydd dan eu gofal. Mae pob system yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod iechyd a diogelwch y plant yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth a bod diogelu yn sail i bob arfer.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac mae eu lles yn cael ei hyrwyddo.

Mae polisi amddiffyn plant ar waith ac mae'r holl staff wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu hyd at Lefel 3. Roedd yn amlwg fod yr arweinydd yn deall ei chyfrifoldebau i nodi unrhyw bryderon diogelu a’i bod yn hyderus o ran eu cyfeirio at yr asiantaeth briodol i ymchwilio iddynt. Gwnaethom argymell bod unrhyw anafiadau i blant sydd eisoes yn bodoli wrth iddynt gyrraedd y gwasanaeth yn cael eu cofnodi a bod rhieni yn llofnodi'r holl gofnodion.

Mae’r gwaith o atal a rheoli heintiau yn cael ei reoli'n dda a defnyddir archwiliad Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod plant yn elwa o arfer gorau mewn perthynas â materion iechyd a hylendid. Rhoddir sylw da i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a gwelsom fod dŵr ffres ar gael, bod byrbryd iach yn cael ei ddarparu i'r plant, a bod ymarfer corff yn cael ei annog yn ddyddiol. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a dywedodd yr arweinydd wrthym fod gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw adweithiau alergaidd plant ar waith ac yn cael ei diweddaru.

Mae'r staff yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach trwy weithredu systemau trylwyr.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae staff yn rheoli rhyngweithiadau yn gadarnhaol.

Gwelsom fod y staff yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth. Roeddent yn gyson yn eu hymagwedd ac roeddent yn ymwybodol o oedran a chyfnod datblygiad y plant wrth reoli materion ymddygiad. Gwelsom staff yn penlinio i lawr i lefel y plant, yn cynnal cyswllt llygad, ac yn defnyddio tôn meddal i dynnu sylw plant a oedd yn teimlo'n rhwystredig neu wedi cynhyrfu. Clywsom staff yn canmol ac yn annog y plant, a dywedodd staff wrthym eu bod yn adnabod y plant yn dda ac y gallent ragweld unrhyw sefyllfaoedd anodd posibl. Dywedodd y person â gofal wrthym ei bod yn cymryd amser i drafod materion gyda phlant a'i bod yn defnyddio system wobrwyo am ymddygiad da a chymwynasgar.

Mae'r staff yn hyrwyddo hunan-barch plant trwy ddefnyddio dulliau ymddygiad cadarnhaol.

**2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae'r tîm staff yn darparu gofal meithringar ac ymatebol sy'n diwallu anghenion y plant.

Dywedodd yr arweinydd wrthym ei bod hi wrthi'n datblygu system sy'n defnyddio arsylwadau ac asesiadau i hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant. Mae'r system, sydd yn ei chyfnodau cynnar, yn seiliedig ar broffiliau'r Cyfnod Sylfaen a bydd yn nodi targedau unigol ac yn cynllunio gweithgareddau yn ôl yr angen. Gwnaethom argymell bod y system hon yn cael ei rhoi ar waith yn ddi-oed. Gwelsom mai ychydig o blant oedd yn mynychu a bod staff yn defnyddio eu gwybodaeth o'r plant i hwyluso gweithgareddau dysgu ystyrlon. Dywedodd yr arweinydd wrthym fod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cynnwys ym mhob gweithgaredd a bod cymorth priodol yn cael ei cheisio gan bartneriaid iechyd yn ôl yr angen.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad y plant yn weithredol ac maent wrthi'n datblygu systemau ffurfiol i gofnodi cynnydd.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli o fewn yr adeilad ar safle Ysgol Gynradd Llyn y Forwyn. Mae'r adeilad yn hen ac mae angen rhywfaint o sylw y tu fewn iddo o ran paentio ac addurno. Mae'n eang ac mae arweinwyr yn sicrhau bod defnydd da yn cael ei wneud o'r cyfleusterau sydd ar gael.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel bob amser.

Mae'r drysau i'r adeilad wedi'u cloi pan fo plant yn bresennol. Ni all unrhyw unigolion heb awdurdod gael mynediad a gwelsom fod cofnod yn cael ei gadw o'r holl ymwelwyr. Mae'r gofrestr plant yn cynnwys amseroedd cyrraedd a gadael y plant. Mae cofnodion damweiniau a digwyddiadau wedi'u cynnal yn dda ac maent yn nodweddiadol o oedran a chyfnod datblygiad y plant. Rhoddir sylw trwyadl i'r ymarferion diogelwch tân ac mae ymarferion yn cael eu cynnal bob hanner tymor. Mae'r gofalwr yn gwirio'r larymau bob wythnos a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod pob system diogelwch tân yn cael ei gwasanaethu'n flynyddol. Mae rhestr wirio ddyddiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mae asesiadau risg ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar gyfer y safle a'r holl weithgareddau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod diogelwch y plant yn cael ei flaenoriaethu ar bob amser gyda systemau a gweithdrefnau diogelwch effeithiol ar waith.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r adeilad yn darparu amgylchedd cyfoethog i blant ar gyfer chwarae a dysgu.

Byddai prif adeiladwaith yr adeilad, er ei fod yn gadarn, yn elwa ar ailaddurno helaeth. Fodd bynnag, mae'r arweinydd a'i staff wedi sicrhau bod cymeriad addas i blant i'r ystafelloedd sy'n cael eu defnyddio gan y plant. Mae arddangosfeydd deniadol a lliwgar, sy'n adlewyrchu themâu tymhorol, yn wahoddgar i blant. Gwnaethom nodi bod amrywiaeth eang o adnoddau ac offer ar gael i’r plant a bod yr amgylchedd yn gyfforddus ac yn apelgar iddynt. Mae ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio ar gyfer chwarae anniben, sydd yn gyfagos i ardal y gegin (nad yw’r plant yn cael mynd i mewn iddi). Mae ystafell arall yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd fel ystafell storio a dywedodd yr arweinydd wrthym ei bod yn bwriadu ei throi'n ardal chwarae meddal yn y dyfodol.

Mae'r cyfleusterau toiled yn cael eu rhannu gyda'r ysgol feithrin ac mae gan y cylch meithrin gyfleusterau dynodedig i'w defnyddio. Mae grisiau yn arwain at yr ardal hon ac mae’r plant yn datblygu’r hyder i'w defnyddio'n annibynnol. Mae’r plant hefyd yn rhannu'r ardal chwarae awyr agored gyda'r ysgol ar adegau gwahanol i blant yr ysgol.

Mae ansawdd yr amgylchedd yn cefnogi arweinwyr a staff i ddarparu gwasanaeth ysgogol lle mae plant yn datblygu ac yn dysgu i'w llawn botensial.

## 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae’r arweinwyr yn rhoi sylw da i gynnal ansawdd yr adnoddau a'r offer.

Gwelsom fod gan blant fynediad at ystod eang o adnoddau a chyfarpar ysgogol a oedd mewn cyflwr da ac wedi'u storio fel eu bod yn hawdd i blant eu cyrraedd. Roedd y dodrefn o faint addas i blentyn i sicrhau bod y plant yn gyfforddus ac wedi ymlacio wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau pen bwrdd a bwyta. Roedd pob blwch storio wedi'i labelu, a oedd yn sicrhau bod plant yn dychwelyd y cynnwys ar ddiwedd y sesiwn. Roedd teganau ac adnoddau yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a gwelsom arddangosfeydd wal a oedd yn dangos bod Dydd Gŵyl Dewi a’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd wedi cael eu dathlu yn ddiweddar. Dywedodd yr arweinydd wrthym ei bod yn y broses o sefydlu gweithgareddau plannu yn yr ardal awyr agored a bod y plant yn dewis yr hyn yr oeddent am ei dyfu. Gwelsom fod y plant yn datblygu dealltwriaeth o gynaliadwyedd drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ailgylchu a modelu sothach.

Mae ansawdd yr adnoddau a'r offer yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y plant trwy ddarparu profiadau ysgogol a diddorol iddynt.

## **4.** Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Crynodeb**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn a synnwyr o bwrpas sy'n cynnal gwelliannau a chanlyniadau da i'r plant ac sy'n cael eu rhannu gyda'r staff a rhieni. Mae systemau effeithiol ar waith i fonitro a gwerthuso pob gweithdrefn, sy'n hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch. Mae'r arweinydd yn darparu cefnogaeth dda i staff, sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac sy'n derbyn cyfleoedd datblygiadol da.

**Ein canfyddiadau**

**4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?**

Mae'r arweinydd newydd wrthi'n sicrhau bod yr holl ofynion rheoleiddiol ar waith.

Gwelsom fod gan yr arweinydd ymdeimlad o bwrpas a'i bod yn llawn cymhelliant i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol a bod y canlyniadau ar gyfer plant yn gadarnhaol. Dywedodd wrthym nad oedd unrhyw ddirprwy ar waith a gwnaethom argymell bod aelod o staff â chymwysterau addas yn cael ei benodi i'r swyddogaeth hon ar unwaith. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Roedd staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol a threfnwyd i'r arweinydd a'r gweithiwr chwarae adnewyddu eu cymhwyster cymorth cyntaf ym mis Mawrth 2018. Dywedodd yr arweinydd wrthym y byddai hyfforddiant penodol yn cael ei wneud i ddiwallu unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg ymhlith y plant. Mae'r unigolyn cyfrifol yn darparu cefnogaeth reolaidd i'r arweinydd a gwnaethom gyfarfod â hi yn ystod ein hymweliad a thrafod cynnydd a datblygiad y gwasanaeth.

Mae arweinydd y gwasanaeth yn datblygu hyder, gwybodaeth a sgiliau i sicrhau bod systemau ar waith sydd o fudd i'r plant ac sy'n cefnogi canlyniadau cadarnhaol.

**4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?**

Mae systemau sy'n datblygu ar waith i werthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Dywedodd yr arweinydd wrthym ei bod hi yn y broses o gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad ansawdd gofal gofynnol i gynnwys barn plant, rhieni a staff. Mae pwyllgor rheoli ar waith sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cefnogi'r arweinydd i fynd i'r afael â datblygiadau yn y gwasanaeth. Dywedodd yr arweinydd wrthym gan fod nifer y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth yn isel mai un flaenoriaeth oedd cynllunio digwyddiadau a chamau i hysbysebu'r gwasanaeth a'r manteision o ddarpariaeth Gymraeg. Dangosodd yr arweinydd frwdfrydedd ac roedd yn awyddus i ymgysylltu â ni ac yn croesawu awgrymiadau a syniadau ar gyfer gwella. Gwnaethom ofyn i'r arweinydd

egluro'r datganiad yn y weithdrefn gwyno a oedd yn dweud y byddai Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymdrin ag unrhyw gwynion yn hytrach na'r gwasanaeth.

Mae'r arweinydd yn rhagweithiol wrth ddatblygu systemau i werthuso'r gwasanaeth a chynllunio ar gyfer gwelliant.

**4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?**

Mae'r arweinydd yn datblygu systemau i reoli staff ac adnoddau eraill yn effeithiol.

Gwnaethom nodi bod staff yn cael eu defnyddio'n briodol a'u bod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau. Roedd pob tasg yn cael ei gwneud yn effeithiol gan staff a oedd yn brofiadol, yn wybodus ac wedi'u cymhwyso'n dda ar gyfer eu swyddogaethau. Roedd yr holl staff, gan gynnwys y gweithiwr achlysurol, wedi cwblhau cymhwyster Blynyddoedd Cynnar Lefel 3 ac roedd dau aelod o staff wedi cwblhau cymhwyster gradd mewn gofal plant yn ddiweddar.

Canfuom nad oedd prosesau recriwtio staff yn gadarn gan fod gwiriad yr arweinydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi dod i ben ac yn cael ei brosesu gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Gwnaethom drafod yr angen i'r ddogfen hon gael ei chyflwyno i'r swyddfa briodol ar ôl iddi gael ei chyhoeddi a gwnaethom argymell bod hyn yn cael ei wneud yn ddi-oed.

Dywedodd yr arweinydd wrthym fod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob mis a'i bod yn bwriadu ffurfioli'r broses hon er mwyn ei gwneud yn fwy effeithiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda. Gwnaethom drafod yr angen i staff gael cyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ac i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni eu swyddogaethau.

Rheolir y staff yn effeithiol ar y cyfan ond rhaid rhoi mwy o sylw i sicrhau bod yr holl wybodaeth i bennu addasrwydd staff ar gael.

**4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?**

Mae arweinwyr wedi datblygu partneriaethau effeithiol i gefnogi'r plant.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda gyda rhieni i sefydlu ymddiriedaeth a dull cyfathrebu clir. Mae ffurflenni cofrestru plant yn darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol i nodi anghenion a dewisiadau unigol. Roedd rhieni'n cael eu darparu â phecyn croeso sy'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn bod eu plant yn cael eu cofrestru. Gwnaethom nodi un enghraifft o ffurflen gofrestru yn cael ei defnyddio ar gyfer dau blentyn o'r un teulu a gwnaethom drafod yr angen am ffurflenni unigol. Cyflawnwyd hyn gan yr arweinydd ar unwaith. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i rieni a gwnaethom nodi eu bod wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan yr arweinydd. Dywedodd rhieni wrthym fod staff yn hawdd mynd atynt a'u bod yn derbyn cyfathrebu da. Gwnaethant ddweud bod eu plant yn hapus ac wedi ymgartrefu'n dda.

Dywedodd yr arweinydd wrthym ei bod yn datblygu cysylltiadau ag ymwelwyr iechyd a'i bod yn derbyn cymorth rheolaidd gan y swyddog datblygu o'r asiantaeth gymorth genedlaethol y mae’r gwasanaeth yn gysylltiedig â hi.

Mae partneriaethau cadarnhaol yn gwella ansawdd y ddarpariaeth i blant.

## 4. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Sefydlu system o weithwyr allweddol a phenodi gweithiwr allweddol ar gyfer pob plentyn
- Dylai'r arweinydd gyflwyno ei thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i swyddfa AGC pan gaiff ei derbyn yn ddi-oed
- Sicrhau bod unrhyw anafiadau i blant sydd eisoes yn bodoli yn cael eu cofnodi pan fydd y plant yn cyrraedd y gwasanaeth a bod rhieni yn llofnodi'r cofnod
- Datblygu'r system i asesu datblygiad y plant ymhellach a chynllunio’r camau nesaf
- Penodi dirprwy i arwain y grŵp yn absenoldeb yr arweinydd

## 5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn archwiliad ôl-gofrestriad llawn wedi'i drefnu. Cynhaliodd un arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth am dair awr a hanner ar y diwrnod cyntaf ac am dair awr a hanner ar yr ail ddiwrnod. Arsylwyd ar y plant a'r gofal yr oeddent yn ei dderbyn trwy gydol y sesiynau drwy ddefnyddio offeryn ein Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae hwnnw'n galluogi arolygwyr i arsylwi a chofnodi bywyd o safbwynt plentyn ac yn darlunio ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir.

- Gwnaethom wiriad gweledol o'r safle y tu mewn a'r tu allan.
- Buom yn siarad â nifer o blant, dau riant, tri aelod o staff, yr unigolyn cyfrifol a'r person â gofal.
- Gwnaethom edrych ar y wybodaeth a oedd eisoes yn cael ei chadw gan AGC.
- Gwnaethom edrych ar amrediad eang o gofnodion. Roedd y rhain yn cynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg, dogfennau iechyd a diogelwch, a'r polisi diogelu. Gwnaethom hefyd edrych ar ffeiliau tri aelod o staff a phedwar plentyn.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 6. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd llawn** |
| **Unigolyn cyfrifol** | **Tracy Evans** |
| **Person â gofal** | **Leanne Price** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **38** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 5 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **9pm – 12pm, ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad cyntaf** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **14 a 23 Mawrth 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |